12 Hydref 2020

**Rhwystrau rhag gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus**

Annwyl Gyfaill,

Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol eu hadroddiadau statudol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf"). Mae'r adroddiadau'n crynhoi'r gwaith a wnaethant o dan y Ddeddf rhwng mis Mai 2017 a mis Mai 2020.

Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd yn cynnal ymchwiliad i'r adroddiadau hyn.

Mae'r ymchwiliad hwn yn annibynnol ar unrhyw ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol neu eraill.

Clywsom farn nifer o randdeiliaid allweddol yn ystod digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid heddiw, a byddwn hefyd yn cymryd tystiolaeth lafar gan rai cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ionawr 2021.. Fodd bynnag, rydym am sicrhau bod cyn gymaint â phosibl o sefydliadau yn gallu cyfrannu at ein hymchwiliad, ac yn gallu ymgysylltu â'n gwaith mewn gwahanol ffyrdd.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu eich barn ar y materion a ganlyn i ategu'r dystiolaeth lafar a gawn:

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddArchwilio@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAC@senedd.wales
0300 200 6565

1. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf a'i goblygiadau.

2. Yr adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus roi'r Ddeddf ar waith a pha mor effeithiol y maent wedi cael eu defnyddio.

3. Y cymorth y mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei roi i gyrff cyhoeddus.

4. Rôl arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru.

5. Unrhyw rwystrau eraill rhag gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus (e.e. Brexit, COVID, ac ati).

6. Sut mae sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol.

Sut i ymateb

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion Cymraeg neu Saesneg.

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y materion uchod. Gweler y canllawiau i'r rhai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau.

Os ydych chi'n dymuno cyflwyno tystiolaeth, dylech gyflwyno un ddogfen (fel dogfen Word yn ddelfrydol) gydag unrhyw dablau, taenlenni ac atodiadau wedi'u hymgorffori ynddi, a'i hanfon i SeneddArchwilio@Senedd.Cymru.

Mae canllawiau pellach ar baratoi tystiolaeth ysgrifenedig ar gael ar wefan y Senedd.

Yn y cyfnod hwn, nid yw'n bosibl i staff y Senedd weithio yn y swyddfeydd ym Mae Caerdydd, ac maent yn gweithio o gartref. Felly, mae'n bosibl na fydd gohebiaeth a ddaw i law, ar wahân i ddeunydd a anfonir drwy ddull electronig, yn cael sylw mewn pryd. Gobeithio eich bod yn deall hyn.

Y dyddiad cau ar gyfer anfon tystiolaeth yw 9am **Dydd Gwener 27 Tachwedd 2020**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Datgelu gwybodaeth

Mae polisi'r Senedd ar ddatgelu gwybodaeth i'w weld yma. Dylech sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Fel arall, mae copi caled o'r polisi hwn i'w gael drwy gysylltu â'r Clerc (0300 200 6565).

Yn gywir,

**Nick Ramsay AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.